

Rhaglen Gyflawn

Cyfarfod	PWYLLGOR ARDAL DWYFOR
Dyddiad ac Amser	5.15 y.h. Dydd Llun, 12fed Medi, 2016
Lleoliad	Ystafell Gyfarfod, Frondeg, Pwllheli, LL53 5RE.
Pwynt Cyswllt	Bethan Adams 01286 679020 BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru

Rhaglen

1.	YMDDIHEURIADAU	
2.	SIARTER IAITH	
3.	RHAGLEN WAITH Y GWASANAETH ADFYWIO CYMUNEDOL	3 - 8
4.	YMGYRCH NEIFION	9 - 11

Dymunir atgoffa aelodau o'u cyfrifoldeb i wneud penderfyniad eu hunain ynglŷn â'r angen i ddatgan buddiant ac i adael y cyfarfod.

Dosbarthwyd 7/9/16

AELODAU

Y CYNGHORWYR

Stephen W. Churchman
Anwen J. Davies
Aled Ll. Evans
Gweno Glyn
Simon Glyn
E. Selwyn Griffiths
Alwyn Gruffydd
John Brynmor Hughes
Sian Wyn Hughes
Jason Humphreys
Aled Wyn Jones
Michael Sol Owen
Peter Read
W. Gareth Roberts
Angela Russell
Hefin Underwood
Eirwyn Williams
Gruffydd Williams
Owain Williams
R. H. Wyn Williams

Rhaglen Waith y Gwasanaeth Adfywio Cymunedol – Ardal Dwyfor

Swyddog: Alys Lloyd Jones

Wedi diweddaru: Gorffennaf 2016

Ymateb i Gyfle

Prosiect Strategol / Cyfle Lleol	Enw'r Mudiad (a chyfeiriad e-bost)	Teitl y prosiect	Wedi gwneud	I'w wneud	Mesuryddion Perfformiad
Cyfle Lleol	Cymydmaen Cyf cynnyrchllyn@gmail.com	Marchnad Cynnyrch Llŷn	Y Bwrdd wedi penodi cwmni lleol i reoli a datblygu cynlluniau i'r dyfodol. Cyfarfod gyda'r swyddogion i drafod ffynonellau ariannu posib ar gyfer prosiect Cynnyrch Llŷn.	Rhoi sylwadau ar gais ariannol.	
Cyfle Lleol	O Ddrws i ddrws oddrwsiddrws@yahoo.co.uk	Datblygu gwasanaeth bws arfordirol a'r gwasanaeth craidd	Cyfleuster archebu ar lein mewn lle ar gyfer cynllun y Bws Arfordirol. Rhoi sylwadau ar gais ariannol ar gyfer gweithgareddau craidd.	Cefnogi'r mudiad hefo materion datblygol.	
Cyfle Lleol	Prosiect Plas Carmel alundwyros@btinternet.com	Cynllun i adfer Capel, Tŷ Capel a hen siop gan gyfuno hanes, diwylliant a'r amgylchedd lleol	Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu blaenoriaethu'r gwaith adnewyddu sydd angen sylw brys sef ail doi'r hen gapel a'r tŷ capel fel gwedd cyntaf o'r gwaith. Ceisiadau wedi eu paratoi i CADW, AHNE a'r Gronfa Dreftadaeth y Loteri, tuag at y gwedd cyntaf.	Paratoi rhagor o geisiadau ariannol ar gyfer y prosiect ail doi. Cyfarch materion cyfansoddiadol.	
Cyfle Lleol	Amgueddfa Forwrol Llŷn meinir.pj@tiscali.co.uk	Canolfan Dreftadaeth Amgueddfa Forwrol Llŷn	Mynychu'r is- grŵp ariannol. Datganiad o ddiddordeb wedi'i baratoi i Rhaglen Datblygu Gwledig i greu storfa ar gyfer arteffactau ac i gefnogi cynaladwyedd.	Parhau i gefnogi'r mudiad gyda materion ariannol a datblygol.	
Cyfle Lleol	Pwyllgor Adfywio Llithfaen sianelen@live.co.uk	Cynllun datblygu'r pentref ac adnoddau lleol.	Y Capel heb ei werthu gan yr Henaduriaeth. Y Pwyllgor yn edrych ar gyflwyno ceisiadau ariannol i adnewyddu'r adeilad ar gyfer defnydd amlbwrpas.	Cydweithio ar geisiadau ariannol amrywiol.	

Cyfle Lleol	Cymdeithas Masnachwyr a Thwristiaeth Abersoch a'r Cylch helen@presentthoughts.co.uk	Wedi deillio o'r Cynllun gweithredu ar gyfer prosiectau lleol	Cyngor ar gyfleoedd ariannu digwyddiadau a phrosiectau penodol. Cynllun gweithredu Abersoch wedi'i ddiweddarau a'i gylchredu.	Aros i glywed ymhellach.	
Cyfle Lleol	Plas Heli plasheli.david@gmail.com	Digwyddiadau a gweithgareddau awyr agored	Cais i'r Gronfa Loteri Fawr ar gyfer swyddog cymunedol a marchnata dros gyfnod o dair blynedd wedi bod yn llwyddiannus. Wedi cydweithio ar ddatblygu holiaduron monitro ar gyfer gweithgareddau a hunan asesiad cyfranogwyr ar gychwyn a diwedd rhaglen o weithgareddau	Cydweithio gyda monitro'r prosiect.	
Cyfle Lleol	Plas Heli plasheli.david@gmail.com	Caban Plas Heli, cynllun dilynol i greu llety byncws fforddiadwy ac adnoddau i grwpiau, teuluoedd ac ymwelwyr drwy addasu'r hen glwb hwylio ym Mhwllheli	Cefnogi gyda Datganiad o Ddiddordeb i Rhaglen Datblygu Cymunedau Gwledig. Y Ganolfan wedi derbyn gwahoddiad i gyflwyno cais rhan 2 i'r Rhaglen Wledig.	Cefnogi'r mudiad gyda chais rhan 2 i Rhaglen Datblygu Cymunedau Gwledig.	
Cyfle Lleol	Swyddfa CAB Pwllheli Tal@cabgwynedd.org.uk	Ail ddatblygu Canolfan Cyngori Pwllheli, llawr gwaelod a chynllun llawr cyntaf ar gyfer uwchraddio'r adeilad a darparu gwasanaeth llinell gymorth.	Cydweithio gyda'r Datganiad o Ddiddordeb i Rhaglen Datblygu Cymunedau Gwledig. Mae'r mudiad wedi cyflwyno cais cyfochrog i Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol.	Cefnogi'r mudiad gyda chais rhan 2 i Rhaglen Datblygu Cymunedau Gwledig.	
Cyfle Lleol	Y Ganolfan Porthmadog iwanap@hotmail.com	Cynllun gwelliannau yn cynnwys sinema newydd, cyfleuster caffi a lleoliad ar gyfer gweithgareddau addysgol ynghyd â mesuriadau arbed ynni.	Cefnogi gyda Datganiad o Ddiddordeb i Rhaglen Datblygu Cymunedau Gwledig. Y Ganolfan wedi derbyn gwahoddiad i gyflwyno cais rhan 2 i'r Rhaglen Wledig.	Cefnogi'r mudiad gyda chais rhan 2 i Rhaglen Datblygu Cymunedau Gwledig.	

Cyfle Lleol	Antur Aelhaearn Llanaelhaearn lynda.cox@llanaelhaearn.com	Datblygu Capel Babel fel adnodd lleol	Y grŵp yn ystyried cyflwyno datganiad o ddiddordeb i Rhaglen Datblygu Cymunedau Gwledig.	Aros i glywed gan y mudiad.	
Cyfle Lleol	Breuddwydion Bro Madog angharadab@hotmail.com	Parc Pawb, Bodawen, Porthmadog	Cais i Gronfa Buddsoddi Cymunedol ar gyfer astudiaeth wedi bod yn llwyddiannus. Cefnogi'r grŵp hefo ymchwil grantiau pellach.	Aros i glywed gan y mudiad.	
Cyfle Lleol	Ymddiriedolaeth Ynys Enlli RichardJamesFarmer@gwynedd.gov.uk	Gwarchod treftadaeth Ynys Enlli	Wedi edrych ar ffynonellau posib i wella isadeiledd, mynediad, creu cyfleoedd / mentrau lleol. Wedi bwydo sylwadau cychwynnol i gais Gronfa Dreftadaeth y Loteri.	Dim angen cefnogaeth pellach ar hyn o bryd.	
Cyfle Lleol	Canolfan Felin Fach christinefelinfach@gmail.com	Prosiect i ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach	Cyfeirio at grantiau posib ar gyfer prosiect gyda Chanolfan Y Gwystl, Y Ffôr. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant i'w defnyddwyr gwasanaeth a chyflenwi angen lleol. Cefnogaeth hefyd i edrych i fewn i'r posibilrwydd o sefydlu canolfan deuluol.	Dilyn cynydd y prosiect Canolfan Deulu i weld os oes bydd cefnogaeth	
Cyfle Lleol	Canolfan Gymdeithasol Golan enidtalafon@fsmail.net	Gwelliannau allanol.	Cais Cronfa Buddsoddi Cymunedol ar gyfer creu cynllun a manyleb gwaith, wedi bod yn llwyddiannus. Wedi cefnogi a chydweithio ar geisiadau ariannol.	Cadw mewn cysylltiad.	
Cyfle Lleol	Cymdeithas Celfyddydau Cricieth elizabethgeorge61@hotmail.com	Ffair Farddoniaeth fel is-ddigwyddiad i Ffair Fwyd yn ystod Gŵyl Cricieth, gyda nifer o weithgareddau barddonol i'r gymuned	Cais grant Cronfa Buddsoddi Cymunedol wedi bod yn llwyddiannus.	Dim angen cefnogaeth pellach.	
Cyfle Lleol	Cylch Meithrin Porthmadog cylchmeithrin@yahoo.co.uk	Cyfleuster pwrpasol ar gyfer y Cylch Meithrin ar	Wedi edrych ar opsiynau posib ar gyfer adleoli'r gwasanaeth ac wedi cadw	Trafodaeth pellach gyda'r adrannau Cyngor	

		safle Ysgol Eifion Wyn.	mewn cysylltiad. Y Cylch a'r Swyddog Mudiad Meithrin wedi bod mewn trafodaethau gyda Ysgol Eifion Wyn a'r Cylch yn anelu i symud yn ystod yr Hydref.	Gwynedd yn mis Medi. Chwilio am ffynonellau ariannu.	
Cyfle Lleol	Canolfan Tudweiliog post@ecoamgueddfa.org	Cynllun Adnewyddu	Cefnogaeth trwy gamau cynnar y prosiect i gael cynlluniau pensaernïol.	Aros i glywed pa gefnogaeth pellach sydd ei hangen.	
Cyfle Lleol	Parc sglefrio Pwllheli janepicken50@hotmail.com	Sefydlu cyfleuster sglefrio ar stad Morfa Garreg	Wedi cefnogi'r grŵp gyda champau cychwynnol y prosiect. Y grŵp wedi sefydlu fel cwmni ac yn bwriadu cynnal ymgynghoriad a diwrnod hwyl. Wedi cefnogi gyda'r briff ymgynghori a chais ariannol Arian i Bawb. Gwaith ymchwil gyda phrosiectau tebyg eraill yn MŌn a Gwynedd.	Cefnogaeth i'r grŵp gyda chais Cronfa Buddsoddi Cymunedol.	

Ymateb i Newid

Categori o Newid	Enw'r Mudiad / Gwasanaeth (a chyfeiriad e bost)	Teitl y prosiect	Wedi gwneud	I'w wneud	Mesuryddion Perfformiad
Adrannol	Neuadd Dwyfor	Her Gwynedd – arbedion ac edrych ar opsiynau i wella hyfywdra'r adnodd cymunedol.	Mynychu cyfarfod Is-grŵp Tasg Neuadd Dwyfor. Wedi llunio tabl o ffynonellau ariannol posib	Mynychu'r cyfarfodydd nesa i weld os oes angen cefnogaeth pellach	
Cyngor Gwynedd <i>*Cefnogaeth gan Iestyn Pritchard (Swyddog Adfywio Trefnidiaeth Ysgolion)</i>	Trefniadaeth Ysgolion Ysgol Rhoshirwaun Iwan Hughes Clerc Cyngor Cymuned Aberdaron iwan.hughes2@btinternet.com 07899954031	Ôl ddefnydd safle Ysgol Lliidiardau, Rhoshirwaun.	Penderfyniad wedi ei wneud i werthu'r safle i Grŵp Cynefin ar gyfer datblygiad tai fforddiadwy – yn unol a dymuniad Cyngor Cymuned Aberdaron.	Yr Adrannau Eiddo a Chyfreithiol yn symud hyn ymlaen.	

Allanol	I'w gadarnhau –Ymholiad cynnar Aelod Lleol yn bwynt cyswllt gyda Rheolwr y Feddygfa.	Datblygu cynllun a all sicrhau parhad y feddygfa ynghyd â hwb iechyd i gwrdd ag anghenion y gymuned	Ymholiadau cychwynnol wedi eu gwneud gyda Cyfleusterau Gweithgareddau Cymunedol. Wedi mynychu cyfarfod gyda'r Aelod Lleol yn Eryldon gyda Wyn Williams a Ffion Johnstone.	Prosiect heb ddatblygu ymhellach.	
----------------	--	--	---	-----------------------------------	--

Mesuryddion y Gwasanaeth Adfywio Cymunedol (16/17)

Ardal: Dwyfor

Cyf	Disgrifiad	Nifer
	Nifer y prosiectau yn y rhaglen waith	
	Nifer y prosiectau adfywio cymunedol sy'n cefnogi cymunedau i ymateb i newid	
	Nifer y prosiectau adfywio cymunedol sy'n cefnogi cymunedau i ymateb i gyfle strategol	
	Nifer y prosiectau adfywio cymunedol sy'n cefnogi cymunedau i ymateb i gyfleoedd lleol	
AC08	% y prosiectau adfywio cymunedol a gefnogir sy'n cefnogi cymunedau i ymateb i newid	
AC09	% y prosiectau adfywio cymunedol a gefnogir sy'n cefnogi cymunedau i ymateb i gyfle (lleol + strategol)	
	Nifer y prosiectau cefnogwyd yn rhaglen waith 2013/14	
	Nifer y prosiectau adfywio a gefnogir sy'n hyfyw / gynaliadwy ymhen 3 blynedd	
	% y prosiectau adfywio a gefnogir sy'n hyfyw / gynaliadwy ymhen 3 blynedd	
	% y prosiectau a gefnogir sydd o fewn yr ardaloedd Cym 1af	

	Nifer y prosiectau a gefnogir sydd o fewn Cymunedau o Angen	
AC10	% y brosiectau a gefnogir sydd o fewn Cymunedau o Angen	
AC11	Nifer y mentrau a gefnogir sy'n cynyddu / datblygu ffrwd incwm newydd / ychwanegol	
AC12	Nifer o swyddi sy'n cael eu creu trwy'r prosiectau	
AC13	Nifer o brosiectau sy'n datblygu gwasanaeth newydd/ diogelu gwasanaeth	

Prosiect Ecosystemau Morol Llŷn

Mae Prosiect Ecosystemau Morol Llŷn yn brosiect peilot sydd wedi ei leoli ym Mhen Llŷn ac yn esblygiad o waith Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau (ACA PLAS). Fe ddatblygwyd y prosiect yn sgîl argymhellion mewn dogfen a luniwyd gan Gymdeithas Pysgotwyr Cymru (Stricking the Balance). Dogfen oedd yn cynnig dull o reoli'r môr fyddai'n gwella ein dealltwriaeth o'r amgylchedd forol, a hyrwyddo adferiad a gwytnwch ecosystemau, heb gael effaith andwyol ar bysgotwyr a chymunedau lleol.

Mae dyheadau'r prosiect a'r modd y caiff ei weithredu yn cael eu cefnogi mewn egwyddor gan ddatblygiadau deddfwriaethol diweddar yng Nghymru: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, a Deddf yr Amgylchedd Cymru 2016.

Côd Morol Gwynedd

Roedd y côd morol ar gyfer defnyddwyr hamdden yng Ngwynedd wedi dyddio felly fe lansiodd côd newydd gan y prosiect hwn eleni. Yn dilyn llwyddiant proses debyg yng Ngheredigion, cafwyd trafodaethau gyda'r swyddogion perthnasol a chytunwyd i rannu'r un côd rhwng y ddwy sir. Mae hyn wedi osgoi dyblygu gwaith ac yn mynd i gadw cysondeb ar draws y bae. Mae'r côd yn canolbwyntio ar famaliaid morol ac yn amlygu sut i ymddwyn yn gyfrifol ar y môr a pharchu bywyd gwylt. Gyda chydweithrediad uned forwrol Cyngor Gwynedd, mae'r côd bellach yn cael ei ddsbarthu i bob perchennog cwch neu feic dŵr cofrestredig yn y sir ac mae'r Swyddog Prosiect wedi bod ar y safleoedd lansio yn annog pobl i'w ddilyn. Mae cytundeb mewn lle gydag uned forwrol Ynys Môn i ehangu'r côd i Fôn, a gobeithiwn gyfarfod gyda Chyngor Conwy maes o law i'r un perwyl.

Ymgyrch Neifion

Fe lansiodd yr ymgyrch ar yr 20fed o Fehefin yn Abersoch er mwyn ei gwneud yn haws i bobl gysylltu â'r awdurdodau os ydynt yn amau fod rhywun yn aflonyddu ar fywyd gwylt y môr a thorri'r côd. Lansiodd yr ymgyrch ar y cyd rhwng Aelod Seneddol Dwyfor a Meirionnydd, Liz Saville Roberts, Rob Taylor o Uned Troseddau Cefn Gwlad Heddlu Gogledd Cymru, y Cynghorydd lleol R H Wyn Williams, a Catrin Glyn o Gyngor Gwynedd. Gwraidd lansio'r ymgyrch oedd adroddiadau fod beicwyr môr yn aflonyddu a phoeni dolffiniaid oddi ar arfordir Abersoch a Thywyn.

Camau Nesaf

1. Cystadleuaeth Ysgolion

Fe fyddwn yn cynnal cystadleuaeth rhwng y pum ysgol uwchradd arfordirol yng Ngwynedd (Botwnnog, Glan y Môr, Ysgol Eifionydd, Ysgol Ardudwy, Ysgol Tywyn) yn gofyn iddynt i ddylunio sticer i roi ar gychod a beiciau dŵr, gan hyrwyddo'r côd, ac yn annog y cyhoedd i alw'r heddlu os oes unrhyw un yn amharu ar fywyd gwylt. Fe fydd briff yn cael ei yrru i'r ysgolion ym mis Medi er mwyn cael y sticeri yn barod ar gyfer 'Blwyddyn y Môr' gan Groeso Cymru.

2. Cynllun Achredu Gwynedd

Hoffai'r Prosiect Ecosystemau Morol sefydlu cynllun achredu ffurfiol fyddai'n golygu fod busnesau preifat yn cytuno yn ffurfiol i ddilyn ac annog cydymffurfiaeth o'r côd. Byddai'r busnesau yn cynnwys;

- Cychod triplau a hyfforddwyr chwaraeon dŵr
- Safleoedd lansio Preifat (e.e. Y Waren, Parc Sunny Sands)
- Arwerthwyr cychod a beiciau dŵr

Byddent yn derbyn tystysgrif, a fyddai'n cael ei harddangos yn gyhoeddus ar eu cwch neu siop/safle.

Yn ddelfrydol, hoffai'r prosiect a'r partneriaethau weithio yn draws sirol, fel ein bod yn archwilio dulliau i ymestyn y gwasanaeth ac i fonitro'r glannau yn well.


Côd Morol Gwynedd

Byddwch yn wylidwrus gan gadw draw o fywyd gwylt. Peidiwch â mynd at famaliaid môr, gadewch iddynt ddod atoch chi. Byddwch yn ofalus wrth lywio cychod, gan sicrhau diogelwch y teithwyr a pharchu pobl eraill sy'n defnyddio'r môr.

Dolffiniaid, Llamhidyddion a Morloi

Os dewch chi ar draws y creaduriaid hyn yn y môr:

- **Arafwch** yn raddol i'r cyflymder isaf posib. Peidiwch â newid eich cyflymder na'ch cwrs yn sydyn.
- **Peidiwch** â llywio'r cwch yn syth atynt na mynd yn nes na 100 metr.
- **Peidiwch** â cheisio cyffwrdd y creaduriaid, eu bwydo na nofio â hwy.
- **Byddwch** yn arbennig o ofalus wrth osgoi aflonyddu ar anifeiliaid gyda rhai ifainc.
- **Peidiwch** â mynd at forloi sy'n gorffwys ar y lan, a pheidiwch â mynd i mewn i ogofâu môr yn y tymor lloea (1 Awst tan 31 Hydref).
- **Peidiwch** â thaflu sbwriel na chyfarpar pysgota i'r môr.
- **Peidiwch** â gwneud unrhyw sŵn diangen ger yr anifeiliaid.



Mae'r côd hwn yn berthnasol i bob llong a chwch hamdden yn cynnwys cychod modur, cychod hwylio, dingis, badau personol, caiacau a chanwod. Dylech gydymffurfio â phob cais gan gychod patrolio lleol a bod yn ymwybodol o derfynau cyflymder o amgylch traethau ymdrochi a safleoedd bywyd gwylt.

Adar

- **Cadwch** draw o'r clogwyni yn y tymor bridio (1af o Fawrth – 31 Gorffennaf).
- **Peidiwch** â gwneud sŵn diangen wrth y clogwyni.
- **Cadwch** draw o heidiau adar sy'n gorffwys neu'n bwydo ar y môr.

Noder fod Harbwrfeistri a Swyddogion Rheoli Lansio Gwynedd wedi'u hawdurdodi i dynnu trwyddedau lansio a/neu angori oddi ar gychod ac unigolion nad ydynt yn cadw at reoliadau lleol, is-ddeddfau neu Gôd Morol Gwynedd. Mae'n drosedd i aflonyddu'n fwriadol neu'n ddi-hid ar unrhyw rywogaeth a warchodir (megis dolffiniaid).